*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar**
**Dydd Llun, 12fed Rhagfyr, 2022 am 1.00 pm**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes Y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2022. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 10)**

## 3. RHAGLEN WAITH Y CABINET

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mewn perthynas â'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Waith y Cabinet.

**(Tudalennau 11 - 34)**

## 4. PREMIYMAU TRETH Y CYNGOR – EIDDO GWAG TYMOR HIR AC AIL GARTREFI

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ffyniant ac Adfywio a Chyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus y cytunwyd i'w roi ar waith mewn perthynas â chyflwyno premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn y fwrdeistref sirol.

**(Tudalennau 35 - 70)**

## 5. CYMORTH I FFOADURIAID, DINASYDDION WCRÁIN A CHEISWYR LLOCHES YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd Gwasanaethau Cymuned sy'n amlinellu'r cymorth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i ffoaduriaid, dinasyddion Wcráin a cheiswyr lloches yn Rhondda Cynon Taf, a'r gwaith sylweddol y mae'r Cyngor yn wneud ar y cyd â'n sefydliadau partner i ymateb yn gadarnhaol ac mor effeithiol â phosibl wrth ymdrin â'r holl gynlluniau ailsefydlu.

**(Tudalennau 71 - 86)**

## 6. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

## 7. ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH ARWEINWYR Y CYNGOR

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer diwygiadau i strwythur swyddi Uwch Arweinwyr y Cyngor.

**(Tudalennau 87 - 114)**

## 8. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion